Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Rywioldeb Plant - Rhywioli a Chydraddoldeb, 6 Mai 2014

Yn bresennol:

Jocelyn Davies AC, Cadeirydd
Rhayna Pritchard, ymchwilydd i Jocelyn Davies
Cecile Gwilym, NSPCC, yr Ysgrifenyddiaeth
Joyce Watson AC, Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru
Aled Roberts AC, Aelod Cynulliad Gogledd Cymru
Siriol Burford, Ysgol Gyfun y Cymer
Evie, Myfyrwraig, Ysgol Gyfun y Cymer
Jake, Myfyriwr, Ysgol Gyfun y Cymer
Rebecca Griffiths, Swyddog Materion Cyhoeddus, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Menna Thomas, Barnardo's Cymru
Meg Kissack, Cymorth i Fenywod
Tina Reece, Cymorth i Fenywod
James Dunn, ymchwilydd i Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig
Ioan Belin, ymchwilydd i Simon Thomas AC

Eitem 1: Cafodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r broses o ethol y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, eu gohirio ar gyfer cyfarfod arall.

*Eitem 2: Boys and Girls Speak Out, the next steps. The role of PSE in promoting gender equality and healthy relationships. Yr Athro Emma Renold, Prifysgol Caerdydd.*

Rhoddodd yr Athro Emma Renold (ER) wybodaeth gefndirol am y gwaith ymchwil, a gynhaliwyd y llynedd gyda chymorth Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a'r NSPCC. Nod y gwaith ymchwil oedd casglu barn plant a phobl ifanc ar y pethau sy'n bwysig iddynt; fel delwedd o'r corff, ffasiwn, cydberthnasau a chyfeillgarwch. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys 125 o bobl ifanc o bump ysgol uwchradd a thair ysgol gynradd yng Nghymru.

Aeth ER ymlaen i sôn am brosiect yr oedd yn rhan ohono yn Ysgol Gyfun Plasmawr yng Nghaerdydd, a oedd yn cynnwys pobl ifanc a ysgrifennodd gerdd am

stereoteipio ar sail rhyw a phwysau o ran rhyw. Rhoddodd ER gopi o'r gerdd i bawb a oedd yn bresennol.

Siaradodd ER hefyd am y grŵp DIGON yn Ysgol Gyfun Plasmawr, a ddatblygodd ddrama yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil. Mae'r bobl ifanc o'r grŵp hwn hefyd wedi cynnal gweithdai a arweinir gan eu cyfoedion mewn chwech neu saith o ysgolion cynradd.

Tynnodd ER sylw at sut y mae'r gwaith ymchwil yng Nghymru wedi'i ddefnyddio gan Maggie Jones yn ei hymgyrch yn Nhŷ'r Arglwyddi yn galw am addysg rhyw gorfodol mewn ysgolion cynradd.

Yna aeth ER yn ei blaen i drafod canfyddiadau'r gwaith ymchwil sy'n ymwneud â stereoteipio ar sail rhyw a rhagfarn ar sail rhyw. Soniodd mwy o blant am ddioddef rhagfarn ar sail rhyw o ddydd i ddydd. Yn wahanol i'r hyn a gaiff ei ddarlunio gan y cyfryngau, mae'n well gan ferched ddillad cyfforddus. Mae lefel uchel o bryder ynghylch delwedd o'r corff ymhlith merched: maent yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu a'u gwylio drwy'r amser. Soniodd y merched am roi'r gorau i weithgareddau yr oeddent yn arfer eu mwynhau gan eu bod yn groes i'r syniad sydd ganddynt o "fenyweidd-dra". Roedd bod yn rhywiol yn syniad peryglus. Roedd merched yn cael trafferth o ran peidio â sefyll allan, a soniwyd am rywfaint o aflonyddwch llafar os oedd hyn yn digwydd.

Roedd sylwadau'r bechgyn am eu cyrff, eu hymddangosiad a'u cydberthnasau â merched yn ymwneud â diogelwch yn hytrach na rhywioldeb. Ymddengys fod chwaeth merched am ffasiwn a cholur yn ffordd o "gael cariad". I fechgyn, roedd cael cariad yn ymwneud â bod yn rhan o'r grŵp a chael hwyl.

Roedd gan y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil farn ar stereoteipio ar sail rhyw a bwlio ond nid oeddent yn gwybod pwy oedd ar gael i wrando. Nid oedd llawer yn ystyried bod y pwysau arnynt o ddydd i ddydd yn fwlio ar sail rhyw ac ni fyddent wedi defnyddio'r polisïau bwlio o fewn eu hysgolion i ymdrin â'r pwysau hwn. Roeddent yn awyddus i siarad yn fwy agored am stereoteipio ar sail rhyw, a chael lle diogel i wneud hynny, yn hytrach na gorfod aros am wers ABCh. Roedd hyn, yn ôl ER, yn amlygu'r angen am gynnwys yr ysgol gyfan wrth fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw.

Tynnodd ER sylw at y prinder adnoddau sydd ar gael i ysgolion fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw. Soniodd yn gryno am adnodd a ddatblygwyd gan Undeb Cenedlaethol yr Athrawon o ran stereoteipio ar sail rhyw, a galwodd ar y Grŵp Trawsbleidiol i drafod sut y gellid defnyddio canfyddiadau'r gwaith ymchwil i gael

dylanwad ar yr adolygiad presennol o'r cwricwlwm a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd Jocelyn Davies AC a oedd rhai pobl ifanc yn gallu gwrthsefyll y pwysau i gydymffurfio â stereoteipiau yn llwyddiannus. Atebodd ER, os oedd ganddynt gymorth teuluol yna roeddent yn gallu gwrthsefyll y pwysau.

*Eitem 3: Gweithredu arfer da drwy ysgolion. Siriol Burford, Ysgol Gyfun y Cymer.*

Dechreuodd Siriol Burford (SB) drwy dynnu sylw at y ffaith bod gwaith ar gydraddoldeb a lles yn arbennig o bwysig mewn meysydd lle mae hyder yn isel.

Amlinellodd ei rôl fel Dirprwy Bennaeth yn gyfrifol am les:

- Llais disgyblion
- Cynhwysiant
- ABCh
- Datblygiad ysbrydol, moesol a phersonol
- Llythrennedd emosiynol
-

Aeth ati i atgoffa pawb a oedd yn bresennol fod yr holl bethau hyn yn rhan o fframwaith lles Estyn.

Aeth ymlaen i sôn, yn y sawl rôl y mae wedi'i chyflawni mewn ysgolion gwahanol, mae bob amser wedi dechrau drwy greu arweinwyr ifanc, gan ei bod yn ffordd wych o ymgysylltu â phobl ifanc.

Yn Ysgol Glynderw lle roedd yn arfer gweithio, datblygodd arolwg lles:

- Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn am Addysg Rhyw a Chydberthynas: roedd y bobl ifanc yn Ysgol Glynderw yn awyddus i gael gweithwyr proffesiynol yn dysgu Addysg Rhyw a Chydberthynas iddynt, yn hytrach nag athrawon;
- Roedd llawer o'r bobl ifanc yn awyddus i ddysgu am gydberthnasau: roedd 38% yn Ysgol Glynderw a 47% yn Ysgol y Cymer yn awyddus i ddysgu sut i fod yn ddiogel.

Datblygwyd y gwaith hwn drwy wythnos cyfoethogi'r cwricwlwm: cafodd pob disgybl ym mlwyddyn 9 hyfforddiant i fod yn arweinwyr mewn sawl maes, gan gynnwys cydberthnasau iach. Roedd yr wythnos yn cynnwys themâu fel sut i fod yn

ddiogel/DA; delwedd o'r corff; hunan-barch, hunanhyder; hunan-werth, dyfalbarhad a gwydnwch. Dysgodd y bobl ifanc am:

- Fwlio rhywiol
- Cam-drin domestig
- Ffiniau
- Pŵer a rheolaeth
- Cymorth a chyngor
- Addysg Rhyw a Chydberthynas

Yn dilyn eu hyfforddiant, cafodd y bobl ifanc y cyfle i siarad mewn cynadleddau am eu gwaith. Cyfrannodd y bobl ifanc at ymgynghoriad y Papur Gwyn ar y Bil Trais yn erbyn Menywod.

Roedd SB yn glir iawn mai dyma'r math o beth y dylai pobl ifanc ei ddysgu yn yr ysgol, nid llythrennedd a rhifedd yn unig, er mwyn bod yn unigolion cytbwys. Galwodd ar y Grŵp Trawsbleidiol i ystyried sut y gellir sicrhau lles mewn ysgolion. Dylai'r Cynghorwyr Her Ysgolion Cymru newydd a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru fod yn rhan o'r agenda hon. Dylai athrawon wybod sut i fynd i'r afael â'r mater o ran cydberthnasau iach. Bydd plant yn cyflawni mwy os ydynt yn ddiogel, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi.

*Eitem 4: Beth yr hoffem ei gael o ABCh? Evie a Jake, Ysgol Gyfun y Cymer.*

Amlinellodd Evie a Jake sut yr oeddent wedi bod yn rhan o wersi ABCh a arweinir gan gyfoedion benywaidd Blwyddyn 10 Ysgol Gyfun y Cymer. Roedd y gwersi yn trafod cydberthnasau iach a delwedd o'r corff.

Cafodd sefyllfaoedd eu disgrifio, gyda disgyblion yn gorfod dewis a oeddent yn gywir neu'n anghywir, ac yna myfyrio ar eu hymddygiad eu hunain. Defnyddiwyd fideo hefyd i ddangos beth sy'n gwneud cydberthynas yn un iach.

Teimla'r ddau ddisgybl fod y gwersi a arweinir gan gyfoedion yn fwy defnyddiol a phwerus gan fod y merched a oedd yn eu dysgu yn deall sut yr oeddent yn teimlo. Hefyd, roeddent yn cael eu hedmygu, ac roedd y bechgyn yn deall ei fod yn fater difrifol.

Roedd y bechgyn yn edrych ar sefyllfaoedd lle roedd y merched yn wynebu pwysau, ac yn meddwl y byddai'r bechgyn, mwyaf tebyg, yn brolio am wneud y fath beth. Ond, dysgodd y gwersi ABCh iddynt y dylid parchu merched ac nad oedd yn "cŵl" rhoi pwysau ar ferched i wneud pethau nad oeddent am eu gwneud.

Nodwyd fod merched weithiau'n teimlo'n anghyfforddus wrth siarad am y senarios gwahanol a gyflwynwyd iddynt. Nid oeddent yn sylweddoli cyn y wers beth oedd yn gywir ac yn anghywir, ac nid oeddent yn siŵr beth ddylai ddigwydd mewn cydberthynas. Ar ôl y wers, roeddent yn teimlo eu bod yn deall mwy ac yn gwybod pwy oedd ar gael i wrando ar unrhyw bryderon.

*Casgliadau*

Gwnaed y pwynt unwaith eto am gyn lleied o adnoddau sydd ar gael i helpu athrawon i fynd i'r afael â'r mater hwn o fewn ysgolion. Galwyd ar y Grŵp i ystyried sut y gall gael dylanwad ar yr adolygiad cyfredol o'r cwricwlwm.

Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Grŵp cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r Bil Trais yn erbyn Menywod, gan y byddai hyn yn rhoi amser i nodi beth sydd angen ei wneud i hyrwyddo ymhellach yr angen am ddarparu addysg ar gydberthnasau iach mewn ysgolion. Cytunwyd y byddai'r Grŵp yn cwrdd ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod ar gyfer eu cyfarfod nesaf gan fod y ddau grŵp yn trafod llawer o'r un pynciau ar hyn o bryd.

Diolchodd Cecile Gwilym i bawb am fod yn bresennol a chafodd y cyfarfod ei gloi gan fod angen i Jocelyn Davies fynd i'r Cyfarfod Llawn.